Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Strategaeth Addysg Uwch

## Sgiliau Lefel Uwch ar gyfer Cyflogaeth yng Ngholeg Gŵyr Abertawe

**2022-2026**

## Cynnwys


3 Cyd-destun

6 Sgiliau Lefel Uwch ar gyfer Swyddi

8 Dilyniant a Chyflogadwyedd

9 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

10 Lles

10 Yr Iaith Gymraeg

11 Partneriaeth

13 Buddion i Fyfyrwyr, Cyflogwyr a’r Rhanbarth

15 Y Cynnig Addysg Uwch y Coleg

18 Dysgu ac Addysgu ar gyfer Addysg Uwch yn y Coleg

18 Ansawdd, Achredu a Rheoleiddio



# Cyd-destun

## Cynllun Strategol, Gweledigaeth a Gwerthoedd y Coleg

Mae'r Coleg wedi cyhoeddi Cynllun Strategol 2020-24 sydd ar gael yma.

Mae'r Strategaeth Addysg Uwch hon wedi cael ei llywio'n uniongyrchol gan, ac yn cyd-fynd â'r 'Edafedd Euraidd' a nodir yma:

**Dysgu gydol oes** - Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes.

**Ansawdd** - Darparu'r canlyniadau gorau mewn dysgu ac addysgu.

**Gwerth am arian** - Y defnydd gorau o adnoddau ariannol cyfyngedig.

**Cyflogadwyedd** - Ffocws ar ddilyniant hirdymor a chyfleoedd cyflogaeth i bob un o'n myfyrwyr.

**Lles** - Ffocws ar iechyd a lles ein myfyrwyr a'n staff.

**Digidol** - Defnydd cynyddol o dechnoleg wrth ddatblygu a darparu dysgu ac addysgu.

## Addysg Uwch (AU) yn y Coleg

Mae cyrsiau AU yn rhai Lefel 4 ac uwch. Bydd gan y Coleg bwyslais arbennig ar raglenni Lefel Technegydd (4 a 5) a bydd yn cefnogi sectorau cyflogaeth penodol hyd at Lefel 7.

Mae'r Strategaeth AU hon wedi cael ei datblygu, ei llywio a'i llunio trwy gyd-destun allanol y sectorau AU, AB a AHO datblygol, presennol, yn Abertawe, Cymru a'r rhanbarth, gan gynnwys y rhai a amlinellir isod:

**Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol** (RLSP)

http://www.rlp.org.uk/cym

Fel rhan o'i strategaeth bydd y Coleg yn cynnal, gwella ac ymestyn y cyfraniad allweddol y mae'n ei wneud i gefnogi datblygu sgiliau a chynllunio ar gyfer De-orllewin Cymru trwy ddarpariaeth ar Lefel 4 ac uwch.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru

Fel rhan o'i strategaeth bydd y Coleg yn cefnogi seilwaith addysg a hyfforddiant y Coleg ar gyfer prosiectau a chyflogwyr y datblygiad rhanbarthol hanfodol hwn.

Datblygiad y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) ac yn arbennig y **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Research (CTER)** y bwriedir ei sefydlu yn 2023. https://llyw.cymru/comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil

Fel rhan o'i strategaeth bydd y Coleg yn ymateb i'r heriau ac yn ceisio cynyddu'r buddion a'r cyfleoedd i fyfyrwyr, cyflogwyr y Coleg a'r rhanbarth sy'n codi o'r datblygiadau hyn. Bydd y strategaeth hon a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir gan y Coleg yn parhau i ddatblygu wrth i fwy o wybodaeth a manylder ddod i'r amlwg ynghylch cyfeiriad teithio'r sector AHO mewn ymateb i'r bil.

Menter **Digitol 2030**

https://digidol2030cymru.jisc.ac.uk/

Er bod y Coleg yn credu mewn, ac wedi ymrwymo i, fanteision addysgu wyneb yn wyneb fel y model addysgu cyffredinol, mae ganddo ffocws digidol yn gyntaf. Fel rhan o'i strategaeth bydd y Coleg yn ceisio sicrhau bod ei ddarpariaeth AU yn cael ei gwella gan yr ansawdd uchaf ac arfer gorau mewn addysgu digidol. Drwy hyn bydd yn sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer eu llwyddiant a'u cyflogadwyedd yn y dyfodol.

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cymru

Er nad yw'r Ddeddf ADY yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â dysgwyr sy'n astudio ar gyrsiau AU, mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu cymorth dysgu, niwro-amrywiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol i'w holl fyfyrwyr.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth AU i gefnogi gweithrediad Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Coleg yn ymwybodol nad yw'n bodoli ar ei ben ei hun ac mae wedi ymrwymo i Bartneriaeth Gydweithredol lwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cynnal, datblygu a gwella partneriaethau cydweithredol cynhyrchiol gyda Chyflogwyr, Ysgolion a Phrifysgolion.

## Datblygiad Cynaliadwy

Mae'r Coleg yn ymwybodol bod yn rhaid i'r holl ddarpariaeth gefnogi datblygiad economaidd Cymru a'r rhanbarth mewn modd cynaliadwy fel yr amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Sgiliau Lefel Uwch ar gyfer Swyddi

Bydd y Coleg yn alinio ei ddarpariaeth AU yn uniongyrchol â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth fedrus o ansawdd uchel yn y rhanbarth. Bydd yn darparu AU yn y Coleg sy'n alwedigaethol, yn berthnasol i ddiwydiant ac sy'n cyd-fynd â'r arlwy AU sefydledig sydd gan Brifysgolion lleol.

Bydd y Coleg yn paru'r cymwysterau y mae'n eu haddysgu â rolau swyddi presennol ac yn y dyfodol gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen yn llwyddiannus i gyflogaeth a bod cyflogwyr yn cael mynediad at weithwyr medrus.

Bydd y Coleg yn rhoi sgiliau i raddedigion ei gyrsiau AU sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth, y gellir eu marchnata ac sy'n drosglwyddadwy, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth fedrus sy'n talu'n dda ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Mae'r Coleg yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu myfyrwyr, a phobl ifanc yn arbennig, yn dilyn pandemig Covid 19 a bydd yn darparu AU sy'n cefnogi uwchsgilio a dilyniant cadarnhaol i addysg a chyflogaeth barhaus.

## Cyrsiau AU Amser Llawn ar gyfer Dilyniant i Gyflogaeth

Mae'r Coleg yn cydnabod nad yw llwybrau dilyniant academaidd traddodiadol fel darpariaeth y Brifysgol yn cefnogi anghenion pob dysgwr sy'n symud ymlaen o ddarpariaeth AB y Coleg, darpariaeth Chweched Dosbarth ysgolion lleol a'r rhai sy'n dychwelyd i addysg.

Bydd y Coleg yn cefnogi Sgiliau Lefel Uwch ac yn darparu dilyniant amser llawn i ddysgwyr lefel 3 yn y Coleg ac mewn partneriaeth ag ysgolion trwy gyrsiau sy'n eu paratoi, ac yn rhoi cymwysterau iddynt ar gyfer mynediad uniongyrchol i gyflogaeth fedrus berthnasol.

Bydd y Coleg yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cyflogwyr Partner a Phrifysgolion Partner, i ddylunio ac addysgu cwricwlwm AU amser llawn sy'n cefnogi sectorau cyflogaeth allweddol ar gyfer Abertawe a'r rhanbarth.

## Cyrsiau AU Amser Llawn sy'n Uwchsgilio Myfyrwyr ar gyfer Dilyniant i Gyflogaeth

Mae'r Coleg yn cydnabod nad yw llawer o ddysgwyr yn barod, neu nad ydynt yn teimlo yn barod, i ddechrau cyflogaeth ar y cam hwn yn eu bywydau. Bydd y Coleg yn darparu cyrsiau AU sy'n cynyddu hyder a sgiliau dysgwyr ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Bydd y Coleg yn cefnogi hyn trwy gyrsiau AU sy'n cynyddu cysylltiadau â'r gweithle, yn gwella sgiliau a hyder ac yn codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth o lwybrau dilyniant cyflogaeth. Bydd y cyrsiau hyn yn hybu sgiliau cyflogadwyedd i symud ymlaen i gyflogaeth fedrus yn y dyfodol.

## Cyrsiau AU Rhan-amser ar gyfer Mynediad i Yrfaoedd Medrus

Bydd y Coleg yn darparu cymwysterau AU a gydnabyddir gan y diwydiant sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy De-orllewin Cymru. Bydd y cyrsiau hyn yn cael eu llunio yn unol â chymwysterau a gofynion mynediad diwydiannau perthnasol.

Bydd y Coleg yn llunio ac yn cyflwyno darpariaeth sy'n rhoi mynediad i yrfaoedd medrus mewn sectorau diwydiant a chyflogaeth sy'n bwysig i'r rhanbarth.

## Cyrsiau AU Rhan-amser i Fyfyrwyr sydd 'Mewn Gwaith'

Bydd y Coleg yn darparu cyrsiau o ansawdd uchel, sy'n cefnogi dilyniant gyrfa.

Bydd y Coleg yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys cyflogwyr, myfyrwyr, sefydliadau dyfarnu ac achredu i addysgu'r rhaglenni a'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr a chyflogwyr.

Bydd y Coleg yn darparu Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) trwy Brentisiaethau Uwch a Gradd.

Bydd y Coleg yn darparu cyrsiau Proffesiynol Uwch sy'n cefnogi dilyniant gyrfa a mynediad i gyflogaeth â chyflog uwch.

# Dilyniant a Chyflogadwyedd

Bydd y Coleg yn dylunio, datblygu a chyflwyno darpariaeth amser llawn sy'n canolbwyntio ar ddilyniant i ddysgwyr Addysg Bellach ac Ysgolion Partner er mwyn hwyluso dilyniant a chynyddu cyflogadwyedd myfyrwyr.

Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei holl fyfyrwyr yn gwbl ymwybodol o ddarpariaeth AU y Coleg a bydd timau AB ac AU yn hyrwyddo'r llwybr hwn yn weithredol fel opsiwn dilyniant cadarnhaol.

Bydd y Coleg yn gweithio gydag Ysgolion Partner sy'n ymwybodol o ddarpariaeth AU y Coleg ac yn hyrwyddo ei gynnig fel llwybr dilyniant cadarnhaol i ddisgyblion.

Bydd y Coleg yn dylunio, datblygu a chyflwyno darpariaeth ran-amser sy'n canolbwyntio ar fynediad i gyflogaeth fedrus sy'n talu'n dda yn y sectorau galwedigaethol a thechnegol.

Bydd y Coleg yn sicrhau cysylltiadau a chymorth ar gyfer gyrfaoedd trwy ddilyniant gyrfa a chyflogaeth cryf gan gynnwys gyrfaoedd y tu allan i feysydd confensiynol.

Bydd y Coleg yn sicrhau bod cyflogadwyedd yn llinyn cyson ym mhob agwedd ar ei gyrsiau AU.

Bydd y Coleg yn cynnig Profiad Byd Go Iawn uniongyrchol i bob myfyriwr AU trwy opsiynau sy'n cynnwys prentisiaethau, lleoliadau, briffiau byw, interniaethau a sesiynau blasu.

Bydd y Coleg yn sicrhau bod y cymwysterau a ddyfernir i'w raddedigion yn cael eu cydnabod yn helaeth, gan weithio gyda phrifysgolion blaenllaw, sefydliadau dyfarnu, cyrff proffesiynol a chyflogwyr.

Bydd y Coleg yn rhoi mynediad i wasanaethau Cyflogadwyedd Gwell Swyddi Gwell Dyfodol (GSGD) i bob myfyriwr AU.

## Achredu a Statws Proffesiynol

Pan fydd cymeradwyaeth 'Trwydded i Ymarfer', Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB) yn llwybr cyflogaeth gofynnol, bydd y Coleg yn sicrhau bod ei gymwysterau'n cyd-fynd â'r fframwaith neu'r cymhwyster perthnasol sy'n ofynnol o fewn y diwydiant.

## Cyfleusterau ac Adnoddau o Ansawdd Uchel

Mae'r Coleg wedi buddsoddi mewn, a bydd yn parhau i fuddsoddi mewn, cyfleusterau AU o ansawdd uchel megis Canolfan y Brifysgol ar Gampws Tycoch ac Ysgol Fusnes Plas Sgeti. Bydd hyn yn darparu amgylchedd AU a phroffesiynol gan gadw diwylliant cefnogol a hygyrch Addysg Bellach.

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth AU i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ei holl weithredoedd a'i holl weithgareddau.

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth AU i hyrwyddo amrywiaeth fel dylanwad a chryfder cadarnhaol cymunedau a chymdeithas.

Bydd y Coleg yn gweithredu AU yn unol â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru, sef dull 'Dim Goddefgarwch'.

https://llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-y-cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol-html

Bydd y Coleg yn Wrth-hiliol yn ei holl weithredoedd a'i holl weithgareddau a bydd yn defnyddio ei AU fel llwyfan i herio anghydraddoldeb o bob math.

Bydd y Coleg yn defnyddio ei AU i hyrwyddo a chynyddu dilyniant grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ei raglenni.

Bydd y Coleg yn gweithio i gau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer yr holl grwpiau ehangu cyfranogiad a'r rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU.

Bydd y Coleg yn gweithredu system dderbyn deg sy'n cefnogi derbyniadau cyd-destunol ar gyfer grwpiau ehangu cyfranogiad yn unol â chanllawiau CCAUC https://www.hefcw.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyrau/w22-01he-derbyniadau-teg-mewn-addysg-uwch-derbyniadau-cyd-destunol/

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth Hyfforddiant Athrawon i hyrwyddo ehangu mynediad i'r proffesiwn addysgu o fewn y sector AHO ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Bydd y Coleg yn darparu trosglwyddiad di-dor o ran cymorth dysgu a niwro-amrywiaeth rhwng Addysg Bellach y Coleg a chyrsiau AU.

Bydd y Coleg yn gweithio gydag ysgolion partner i ddarparu cymorth dysgu a niwro-amrywiaeth rhwng Addysg Bellach y Coleg a chyrsiau AU.

Bydd y Coleg yn cynnig cymorth dysgu a niwro-amrywiaeth wedi'i deilwra, yn ôl yr angen, i'w holl fyfyrwyr AU, sy'n hyblyg, yn briodol ac yn ymatebol.

# Lles

Mae’r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd lles a chynnal iechyd meddwl da fel sgiliau bywyd allweddol a bod datblygu’r sgiliau i reoli eich lles a’ch iechyd eich hun ac adeiladu gwydnwch yn sgiliau cyflogadwyedd hanfodol.

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth AU i ddatblygu a hyrwyddo lles cadarnhaol ar gyfer ei holl fyfyrwyr.

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth AU i gefnogi datblygiad sgiliau a dulliau gweithredu i rymuso dysgwyr i reoli eu lles a’u hiechyd meddwl eu hunain.

# Yr Iaith Gymraeg

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth AU i gefnogi a hyrwyddo datblygiad yr Iaith Gymraeg.

Bydd y Coleg yn gweithio i gynyddu darpariaeth ddwyieithog ei gyrsiau AU.

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth AU i gefnogi datblygiad dwyieithrwydd ei fyfyrwyr fel sgil cyflogadwyedd allweddol.

Bydd y Coleg yn darparu trosglwyddiad di-dor i siaradwyr Cymraeg rhugl sy’n symud ymlaen i AU.

Bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth Hyfforddiant Athrawon i hyrwyddo’r defnydd o’r Iaith Gymraeg ar gyfer addysgu o fewn y sector AHO.

# Partneriaeth

Drwy gydol ei weithgareddau AU bydd y Coleg yn gweithio mewn partneriaeth gydweithredol â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys y rhai a nodir isod:

## Myfyrwyr fel Partneriaid mewn Dysgu

Bydd y Coleg yn ymgysylltu'n llawn â dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr i gyd-gynllunio ei gyrsiau a'i ddarpariaeth AU.

Bydd y Coleg yn cynnal dulliau llais y dysgwr cadarn ac effeithiol i lywio datblygiad ei ddarpariaeth AU mewn model wedi'i gynllunio ar y cyd â Chorff y Myfyrwyr.

Bob blwyddyn, bydd y Coleg yn penodi Cynrychiolydd Arweiniol AU ar gyfer Rheolwyr Undeb Myfyrwyr y Coleg (SUMG) a grwpiau Gweithredol AU.

Bydd y Coleg yn gweithio gyda'r Cynrychiolydd Arweiniol AU a'r corff myfyrwyr i adolygu'r Fframwaith Ymgysylltu â Dysgwyr AU [Cyswllt] yn flynyddol.

## Cyflogwyr Partner

Bydd y Coleg yn ymgysylltu â chyflogwyr partner presennol a phosibl i gyd-gynllunio ei gyrsiau a'i ddarpariaeth AU.

Bydd y Coleg yn ymgysylltu â chyflogwyr i ddarparu cynnig AU sy'n cefnogi eu gweithgareddau a datblygiad cynaliadwy y rhanbarth, gan gefnogi sectorau penodol fel rhan o gysylltiadau hirdymor, cynaliadwy.

## Prifysgolion Partner

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol mewn trefniant sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Bydd y Coleg yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o Brifysgolion Partner yn seiliedig ar anghenion y cwricwlwm, meysydd cytundeb ac aliniad strategol.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i'r manteision i'w holl randdeiliaid o weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau dyfarnu. Nid yw'n anelu at feithrin cysylltiadau unigryw ag un corff neu Brifysgol Partner.

Bydd y Coleg yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol gan gynnwys darpariaeth masnachfraint, darpariaeth ar y cyd, asesu seiliedig ar waith a chytundebau Cydnabod Dysgu Blaenorol mewn modd sy'n gwella'r buddion i'r holl randdeiliaid.

Bydd y Coleg yn gweithio gyda Phrifysgolion Partner i sicrhau bod myfyrwyr AU yn cael y buddion llawnaf posibl o gofrestru 'Deuol' trwy bartneriaeth gydweithredol.

## Ysgolion Partner

Bydd y Coleg yn gweithio gydag Ysgolion Partner mewn partneriaethau cydweithredol i gefnogi dilyniant i AU yn y Coleg ar gyfer disgyblion 6ed Dosbarth.

Mae'r Coleg yn anelu at weithio gydag Ysgolion Partner mewn partneriaeth ddi-dor lle mae pontio o'r 6ed Dosbarth i AU yn y Coleg yn cael ei weld fel dilyniant 'Mewnol'.

# Buddion i Fyfyrwyr, Cyflogwyr a'r Rhanbarth

## Buddion i Fyfyrwyr

Bydd myfyrwyr AU yn cael profiad derbyn a chyngor a fydd yn rhoi modd iddynt wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfa yn y dyfodol.

Bydd myfyrwyr AU amser llawn yn derbyn addysg o ansawdd uchel ar gyfer dilyniant i gyflogaeth a gyrfaoedd medrus.

Bydd myfyrwyr AU amser llawn yn derbyn addysg sy'n lleihau'r baich ariannol o astudio ac sy'n darparu'r gwerth gorau am arian yn y sector.

Bydd myfyrwyr AU llawn amser yn cael llawer iawn o gymorth wrth bontio o Addysg Bellach ac Ysgolion. Bydd y rhai sy'n dychwelyd i addysg yn cael cymorth hefyd i fynd i'r afael â rhwystrau i ddilyniant ac i ddileu'r rhwystrau hynny.

Bydd myfyrwyr AU amser llawn yn cael cymorth i wella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd ym mhob agwedd ar eu hastudiaethau.

Bydd myfyrwyr AU amser llawn yn cael cymorth trwy ddarpariaeth AU gyda dosbarthiadau cymharol lai, ffocws galwedigaethol a dull dysgu gweithredol.

Bydd pob myfyriwr AU yn cael cymorth i bontio'n gadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Bydd y Coleg yn defnyddio ei gyrsiau AU i gymell ac ysbrydoli dysgwyr i feithrin sgiliau cyflogadwyedd a datblygu cynlluniau gyrfa clir sy'n trawsnewid eu huchelgeisiau yn realiti.

Bydd yr holl fyfyrwyr AU yn cael cymorth gyda'u hiechyd a'u lles wrth astudio a byddant yn dysgu sgiliau i'w helpu i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, nawr ac yn y dyfodol.

Bydd y Coleg yn cynnig amgylchedd proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer addysgu ei ddarpariaeth AU.

## Buddion i Gyflogwyr

Bydd y Coleg yn cynnig cyrsiau, cymwysterau a darpariaeth sy'n cefnogi anghenion cyflogwyr mewn amrywiaeth o sectorau allweddol gan helpu i ddarparu gweithlu medrus.

Bydd y Coleg yn darparu cyrsiau AU gyda modelau a phatrymau addysgu sy'n cefnogi diwydiant.

O fis Medi 2023, bydd y Coleg yn symud i batrwm addysgu sy'n seiliedig ar drefniant semester ar gyfer ei holl gyrsiau AU, gan hwyluso derbyniadau lluosog.

## Buddion i’r Rhanbarth

*Yn Abertawe, disgwylir cynnydd demograffig yn nifer y bobl ifanc 16-18 oed yn y pedair i bum mlynedd nesaf, a all fod o fudd i’r Coleg* (Cynllun Strategol y Coleg 2020-24). Yn amlwg bydd cynnydd yn nifer y dysgwyr 19+ yn dilyn hyn a bydd darpariaeth AU amser llawn y Coleg, yn arbennig, yn ymateb i’r agenda hon a bydd yn rhan o’i strategaeth dwf.

Bydd y Coleg yn defnyddio gwybodaeth cyflogwyr, RLSP a’r farchnad lafur i sicrhau ei fod yn darparu anghenion addysgol a hyfforddiant y rhanbarth.

Bydd y cynnig AU yn y Coleg yn cefnogi datblygiad cynaliadwy’r rhanbarth trwy addysg a hyfforddiant sy’n cefnogi proffesiynau Galwedigaethol Uwch a Thechnegol Uwch.

## ‘Sero Net’ a Chynaliadwyedd

Trwy ei weithredoedd a’i weithgareddau, gan gynnwys datblygu cyrsiau AU, bydd y Coleg yn cefnogi seilwaith a gweithlu i Gymru sy’n cefnogi dyfodol cynaliadwy a charbon isel.

# Y Cynnig Addysg Uwch yn y Coleg

Mae'r Coleg yn addysgu cyrsiau o ansawdd uchel, sy'n berthnasol i'r diwydiant a'r alwedigaeth, mewn pynciau a sectorau sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy rhanbarth Bae Abertawe a De-orllewin Cymru. Bydd yn cynhyrchu graddedigion 'Barod am Swydd' hynod gyflogadwy, yn cefnogi dilyniant cadarnhaol myfyrwyr 'mewn gwaith' ac yn meithrin sgiliau, hyder a chyflogadwyedd myfyrwyr sy'n symud ymlaen. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gynlluniau hirdymor ar gyfer ei Gwricwlwm AU a bydd yn cyflwyno darpariaeth mewn meysydd sy'n cefnogi datblygiadau sector yn y dyfodol yn y rhanbarth, yn enwedig ar gyfer twf ei gynnig AU yn y sectorau allweddol a nodir isod. Bydd y Coleg yn cynllunio ar gyfer dau gwrs mewn meysydd newydd a fydd yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn.

### Sectorau Allweddol

- Peirianneg, Adeiladu a Thechnoleg 'Wyrdd' – disgyblaethau Technegol a Rheolaeth
- Gwyddoniaeth ac Iechyd (STEM) – disgyblaethau Technegol
- Technolegau Digidol – disgyblaethau Technegol
- Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol – disgyblaethau Addysgu a Chymorth
- Gofal, Gwasanaethau Amddiffynnol a'r Gyfraith – disgyblaethau Proffesiynol a Chymorth.

### Cyrsiau Cenedlaethol Uwch (HNC/D)

Bydd y Coleg yn addysgu cyrsiau HNC a HND ar gyfer diwydiannau a sectorau lle mae cydnabyddiaeth uchel ar gyfer y cymwysterau hyn a lle maen nhw'n ffurfio'r elfen 'Dechnegol' o fframweithiau Prentisiaeth Uwch.

Bydd hyn yn cynnwys Cymwysterau Cenedlaethol Uwch a ddyfernir gan Brifysgolion Pearson a Phartneriaid yn seiliedig ar y sector ac anghenion myfyrwyr a chyflogwyr, mewn model wedi'i gynllunio ar y cyd.

### Cyrsiau Gradd Sylfaen (FdA, FdEng, FdSc)

Bydd y Coleg yn addysgu cyrsiau Gradd Sylfaen sy'n adlewyrchu sectorau cyflogaeth allweddol ac yn darparu dilyniant â ffocws galwedigaethol gyda lleoliad ystyrlon, briff bywyd a gweithgareddau seiliedig ar waith.

Bydd y Coleg yn gweithio gyda Phrifysgolion Partner dyfarnu yn seiliedig ar y sector ac anghenion myfyrwyr a chyflogwyr, mewn model a ddyluniwyd ar y cyd.

## Cyrsiau Gradd Llawn (BA, BSc, BEng)

Tra bydd y Coleg yn canolbwyntio ar ddarpariaeth Lefel 4 a 5, bydd yn cynnig cyrsiau Lefel 6 mewn meysydd gan gynnwys proffesiynau *myfyrwyr graddedig* a'r rhai lle mae gofyniad 'Trothwy' ar gyfer cyflogaeth berthnasol o fewn y sector.

Bydd y Coleg yn cynnig opsiynau 'Ychwanegol' ar Lefel 6 neu Raddau Llawn yn seiliedig ar ofynion cyflogaeth y sectorau hyn, y gellir eu darparu ar y cyd â Phrifysgolion Partner.

## Cyrsiau Addysg a Hyfforddi Athrawon

Bydd y Coleg yn cynnig Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) sy'n cefnogi datblygiad ei weithlu athrawon ei hun a darparwyr hyfforddiant eraill yn y rhanbarth. Bydd y Coleg yn gweithio gyda phartneriaid yn y Brifysgol i ddyfarnu'r cymwysterau hyn a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y PSRB megis ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

Bydd y Coleg yn darparu pontio â chymorth i addysgu yn y sector AHO ar gyfer yr unigolion hynny sy'n ystyried y proffesiwn, trwy ei Academi Addysgu.

Bydd y Coleg yn cynnig darpariaeth AU sy'n cefnogi'r sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) ac sy'n ymateb i ddatblygiadau sector megis ADY.

## Prentisiaethau Uwch

Bydd y Coleg yn cynnig Prentisiaethau Uwch sy'n cefnogi'r sectorau a'r rolau swyddi sydd eu hangen ar gyflogwyr yn y rhanbarth.

Bydd y Coleg yn cynnig Prentisiaethau Uwch sy'n cynnwys cymwysterau a ddyfernir gan Brifysgolion Partner a Sefydliadau Dyfarnu, yn seiliedig ar anghenion myfyrwyr a chyflogwyr mewn model a ddyluniwyd ar y cyd.

Lle mae gan y Coleg feysydd arbenigedd penodol bydd yn cynnig darpariaeth Seiliedig ar Waith lefel uwch ledled y DU.

## Prentisiaethau Gradd

Bydd y Coleg yn cynnig Prentisiaethau Gradd, gan weithio ar y cyd â Phrifysgolion Partner, lle mae Gradd Lawn yn gymhwyster 'Trothwy' ar gyfer cyflogaeth berthnasol o fewn y sector.

## Cyrsiau Proffesiynol

Bydd y Coleg yn cynnig Cyrsiau Proffesiynol sy’n cael eu cydnabod yn fawr gan ddiwydiannau a sectorau, gan gefnogi cyflogaeth fedrus.

Bydd y Coleg yn cynnig Cyrsiau Proffesiynol o Lefel 4 i 7 sy’n cefnogi cydnabyddiaeth broffesiynol megis Statws Siartredig a chydnabyddiaeth PSRB.

## Micro-gymwysterau

Bydd y Coleg yn gweithio gyda phrifysgolion partner i gynnig Micro-gymwysterau sy’n berthnasol i’r alwedigaeth a’r diwydiant, yn unol â Datganiadau Nodweddion yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. https://www.qaa.ac.uk//en/news-events/blog/micro-credentials-stackability-and-portability

## Rhyngwladol

Bydd y Coleg yn cefnogi mynediad i’w ddarpariaeth AU ar gyfer dysgwyr unigol, lle bo hynny’n bosibl ac yn ddymunol.

Gall y Coleg ddatblygu darpariaeth benodol ryngwladol sy’n cyd-fynd â meysydd arbenigedd newydd neu bresennol, yn enwedig ar gyfer grwpiau a noddir yn llawn o fewn y sectorau peirianneg a busnes.

# Dysgu ac Addysgu ar gyfer Addysg Uwch yn y Coleg

Bydd y Coleg yn darparu dull dysgu ac addysgu AU sy'n canolbwyntio ar sgiliau ac yn seiliedig ar ddysgu gweithredol mewn amgylchedd dysgu hynod gefnogol.

Bydd y Coleg yn darparu dull dysgu ac addysgu AU sy'n adlewyrchu ymarfer galwedigaethol a diwydiant gyda Phrofiad Byd Go Iawn.

Bydd y Coleg yn darparu dull dysgu ac addysgu AU lle mae darpariaeth wyneb yn wyneb yn cael ei gwella, nid ei disodli, gyda dull 'Digidol yn Gyntaf' yn datblygu'r sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Bydd y Coleg yn darparu dull dysgu ac addysgu AU lle mae cyflogadwyedd, lles a sgiliau digidol yn llinynnau hanfodol sy'n rhedeg trwy bob agwedd ar y ddarpariaeth.

Bydd y Coleg yn darparu dulliau addysgu hyblyg sy'n cyd-fynd ag anghenion myfyrwyr AU 'mewn gwaith', amser llawn a rhan-amser.

# Adolygu Ansawdd, Achredu a Rheoleiddio

### Adolygiad Ansawdd Allanol (QAA):

Mae'r Coleg wedi cynnal Adolygiad QAA yn llwyddiannus yn 2016 a 2021.

Adroddiad yr adolygiad diweddaraf yw [https://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd](https://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd)

Bydd y Coleg yn cynnal ac yn cyflawni Adolygiad Ansawdd AU Allanol fel 'Nod Barcut' gan sicrhau bod ei ddysgwyr yn derbyn addysg o'r safon uchaf.

Bydd y Coleg hefyd yn sicrhau ei fod yn cynnal Adolygiad Ansawdd AU Allanol i sicrhau ei fod mewn sefyllfa i ymateb i ddatblygiadau yn y sector a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r holl randdeiliaid.

### Rheoleiddio (Statws Darparwr Rheoleiddiedig):

Bydd y Coleg yn cynnal y Llinell Sylfaen Ansawdd sy'n ofynnol gan CCAUC* a'i olynydd fel rhan o ddatblygiadau CETR ar gyfer Statws Darparwr Rheoleiddiedig, neu'r cyfwerth.

Bydd y Coleg yn monitro datblygiadau yn y sector AHO mewn ymateb i sefydlu'r comisiwn newydd ac yn sicrhau ei fod mewn sefyllfa i wneud y cyfraniad mwyaf i addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn y rhanbarth.

* Adolygiad Ansawdd Porth QAA ar hyn o bryd.